Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Gwasanaethau sy’n ymgorffori ac yn darparu dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 Ionawr 2024

Diweddariad olaf: 18 Ionawr 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/adroddiad-effaith-2022-i-2023/gwasanaethau-gofal-cymdeithasol-syn-ymgorffori-ac-yn-darparu-dulliau-gofal-a-chymorth-syn-seiliedig-ar-gryfderau am y fersiwn diweddaraf.

**Gwasanaethau gofal cymdeithasol sy’n ymgorffori ac yn darparu dulliau gofal a chymorth sy'n seiliedig ar gryfderau.**

Trosolwg o'n cynnydd yn erbyn y canlyniad hwn o'n cynllun strategol yn ystod 2022 i 2023.

Mae rhoi'r unigolyn a'i anghenion wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais a rheolaeth iddyn nhw dros y canlyniadau sy'n eu helpu i gyflawni llesiant yn egwyddor allweddol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Pobl yw'r arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain, ac wrth gydweithio â gweithwyr proffesiynol, nhw sydd yn y sefyllfa orau i ddweud wrthym beth fydd yn cefnogi eu llesiant.

Rydyn ni wedi bod yn darparu offer ac adnoddau ymarferol i helpu gweithwyr proffesiynol defnyddio **dull sy'n canolbwyntio ar gryfderau** yn eu hymarfer.

Yn 2022 i 2023, fe wnaethon ni ddarparu hyfforddiant i **fwy na 260 o Unigolion Cyfrifol** yng Nghymru am:

- y cyd-destun deddfwriaethol yng Nghymru
- ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar gryfderau
- sut i roi sgyrsiau 'beth sy'n bwysig' wrth wraidd y ddarpariaeth gofal a chymorth.

Fe wnaethon ni redeg rhwydwaith o fentoriaid i hyrwyddo'r dull seiliedig ar gryfderau yn eu sefydliad. Mae'r aelodau'n cynnwys staff o **19 awdurdod lleol** a'r sefydliad gofalwyr di-dâl Credu Cymru.

## Rhaglenni rheoli ac arwain

Rydyn ni’n goruchwylio nifer o raglenni rheoli ac arweinyddiaeth. Hyd yma, mae:

- **751 o bobl** wedi mynychu'r Rhaglen Datblygu Rheolwr Tîm
- **90 o bobl** wedi dilyn y Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol.

Roedd **99 y cant** o'r bobl a fynychodd yn teimlo ei fod yn berthnasol iddyn nhw a’u sefydliad, a’u bod yn diwallu eu hanghenion.

Buom ni hefyd yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu **dwy raglen newydd** – un ar gyfer darpar reolwyr canol ac un ar arweinyddiaeth ar y cyd a thosturiol.